

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2022 Rhif 1362 (Cy. 273)**

**YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU  
AMAETHYDDIAETH, CYMRU  
BWYD, CYMRU**

Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau  
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

*Gwnaed* - - - - 15 Rhagfyr 2022

*Yn dod i rym* - - 31 Rhagfyr 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

- paragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), ac
- adrannau 66(1), 74A(1) a 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(2).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(3).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(4) neu, yn achos darpariaethau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970.

- (1) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) ar gyfer ystyr "devolved authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1), a pharagraffau 38 a 53(2) o Atodlen 5 iddi.
- (2) 1970 p. 40. Gweler adran 66(1) ar gyfer ystyr "the Ministers", "prescribed" a "regulations". Trosglwyddwyd swyddogaethau a arferid gynt gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mewnodsodwyd adran 74A gan baragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Diwygiwyd adran 84 gan O.S. 2004/3254.
- (3) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Gweler paragraff 38 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.
- (4) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2022.

## Diwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

2.—(1) Mae Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012(5) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

- (a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniad o “Cyfarwyddeb 2007/42/EC”;
- (b) ym mharagraff (3)—
  - (i) hepgorer “neu at Atodiad i Gyfarwyddeb 2007/42/EC”;
  - (ii) hepgorer “neu'r Atodiad hwnnw”.

(3) Yn rheoliad 11, hepgorer paragraff (3).

(4) Yn rheoliad 12—

- (a) ym mharagraff (1)—
  - (i) yn lle “Atodiad II”, yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder “Atodlen 6”;
  - (ii) yn lle “Atodiad hwnnw” rhodder “Atodlen honno”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “y rhan gyntaf o Atodiad II” rhodder “nhabl 1 o Atodlen 6”.

(5) Ar ôl Atodlen 5, mewnosoder yr Atodlen 6 a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

## Diwygio Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

3.—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013(6) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

- (a) ym mharagraff (1)—
  - (i) hepgorer y diffiniad o “Cyfarwyddeb 2009/32”;
  - (ii) yn y diffiniad o “Rheoliadau'r UE”, ar ôl “UE” mewnosoder “a ddargedwir”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “offerynnau'r UE” rhodder “yr offerynnau”;
- (c) ym mharagraff (3), yn lle “o offerynnau'r UE” rhodder “o'r offerynnau”;
- (d) ym mharagraff (4), yn lle “Offerynnau'r UE” rhodder “Yr offerynnau” a hepgorer “Cyfarwyddeb 2009/32,”.

(3) Hpgorer rheoliad 9.

(4) Yn rheoliad 10(a), yn lle “Atodiad I” rhodder “Atodlen 4A”.

(5) Yn rheoliad 11(a)—

- (a) yn is-baragraff (i), yn lle “Atodiad I” rhodder “Atodlen 4A”;
- (b) yn is-baragraff (ii), yn lle “yr Atodiad hwnnw” rhodder “Atodlen 4A”;
- (c) ar ôl is-baragraff (iii), mewnosoder “ac”;

---

(5) O.S. 2012/2705 (Cy. 291), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/832 (Cy. 202), 2018/913 (Cy. 179) a 2019/425 (Cy. 99); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(6) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1581 (Cy. 331); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

- (d) ar ôl is-baragraff (iv), yn lle “, a” rhodder “; neu”;
- (e) hepgorer is-baragraff (v) a’r “neu” sy’n ei ddilyn.
- (6) Yn rheoliad 14(1)(a), yn lle “Atodiad 1” rhodder “Atodlen 4A”.
- (7) Yn rheoliad 16, ar ôl “Rheoliadau’r UE” mewnosoder “a ddargedwir”.
- (8) Yn rheoliad 19(2), ar ôl “Reoliadau’r UE” mewnosoder “a ddargedwir”.
- (9) Ar ôl Atodlen 4, mewnosoder yr Atodlen 4A a nodir yn Atodlen 2 i’r Rheoliadau hyn.

#### **Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016**

4.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(7) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn rheoliad 2—
  - (a) ym mharagraff (1)—
    - (i) hepgorer y diffiniadau o “Cyfarwyddeb 82/475” a “Cyfarwyddeb 2002/32”;
    - (ii) yn y diffiniad o “awdurdod bwyd anifeiliaid”, yn lle “67(1)” rhodder “67(1A)”;
  - (b) ym mharagraff (2), ar ôl “UE” mewnosoder “a ddargedwir”;
  - (c) ym mharagraff (3), yn y ddau le y mae’n digwydd, hepgorer “UE”.
- (3) Yn rheoliad 12(2), yn lle “yr Atodiad i Gyfarwyddeb 82/475” rhodder “Atodlen 1A”.
- (4) Yn rheoliad 13(2)(b), yn lle “i’r awdurdod priodol” rhodder “i Weinidogion Cymru”.
- (5) Yn lle pennawd Rhan 6 rhodder—

*“Sylweddau annymunol mewn cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid”*

- (6) Yn rheoliad 14, hepgorer paragraff (a) a’r “a” sydd ar ei ôl.
- (7) Yn rheoliad 15—
  - (a) ym mharagraff (1)—
    - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “Atodiad I” rhodder “dabl yn Atodlen 1B”;
    - (ii) yn y geiriau sy’n dod ar ôl is-baragraff (b), yn lle “Atodiad” rhodder “tabl”;
  - (b) ym mharagraff (2)—
    - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “Atodiad I” rhodder “dabl yn Atodlen 1B”;
    - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “Atodiad” rhodder “tabl”;
  - (c) ym mharagraff (3)—
    - (i) yn lle “Atodiad I” rhodder “dabl yn Atodlen 1B”;
    - (ii) yn lle “Atodiad”, yn yr ail le y mae’n digwydd, rhodder “tabl”;
  - (d) ym mharagraff (5)—
    - (i) yn lle “Atodiad I” rhodder “dabl yn Atodlen 1B”;
    - (ii) yn lle “Atodiad”, yn yr ail le y mae’n digwydd, rhodder “tabl”;
  - (e) ym mharagraff (7)—
    - (i) ar ôl is-baragraff (c) hepgorer yr “a”;
    - (ii) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

(7) O.S. 2016/386 (Cy. 120), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162), 2019/1046 (Cy. 185) a 2020/1381 (Cy. 307); ceir offeryn diwygio arall nad yw’n berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

- “(e) mawn;  
(f) leonardit.”;
- (f) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—
- “(9) Er mwyn lleihau neu ddileu ffynonellau sylweddau annymunol mewn cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid, rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid gynnal ymchwiliadau i ganfod ffynonellau sylweddau annymunol, mewn achosion pan fo mwy o’r sylweddau na’r lefelau uchaf a ganiateir ac mewn achosion pan fo lefelau uwch o’r sylweddau hynny wedi eu canfod, gan ystyried y lefelau cefndir.
- (10) Mewn achosion o lefelau uwch o’r sylweddau annymunol a restrir yn Atodlen 1C, mae trothwyon gweithredu ar gyfer sbarduno ymchwiliadau wedi eu nodi yn yr Atodlen honno.
- (11) Rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid anfon i’r Asiantaeth yr holl wybodaeth berthnasol a chanfyddiadau o ran y ffynhonnell a’r mesurau a gymerwyd i leihau’r lefel o sylweddau annymunol neu i’w dileu.”
- (8) Ar ôl rheoliad 15 mewnosoder—
- “Rheoliadau sy’n diwygio Atodlenni 1B ac 1C**
- 15A.**—(1) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i ddiwygio cofnod, ychwanegu cofnod neu ddileu cofnod yn Atodlen 1B neu 1C.
- (2) Mae’r paragraff hwn yn gymwys—
- (a) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod presenoldeb sylwedd annymunol nas rhestrir yn Atodlen 1B, neu ar lefel a ganiateir yn unol ag Atodlen 1B, mewn bwyd anifeiliaid yn peri, neu y byddai’n peri, perygl i iechyd anifeiliaid neu iechyd dynol neu i’r amgylchedd, neu
- (b) pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny’n angenrheidiol er mwyn addasu i ddatblygiadau gwyddonol a thechnegol.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiffinio meini prawf derbynoldeb ar gyfer prosesau dadwenwyno a ddefnyddir i ddileu sylwedd annymunol a restrir yn Atodlen 1B yn fwriadol o fwyd anifeiliaid.
- (4) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y rheoliad hwn—
- (a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;
- (b) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;
- (c) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed (gan gynnwys darpariaeth sy’n diwygio, yn diddymu neu’n dirymu deddfiadau neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir).
- (5) Mae offeryn statudol sy’n cynnwys rheoliadau o dan y rheoliad hwn yn ddarostyngedig i’w diddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.”
- (9) Ar ôl Atodlen 1 mewnosoder yr Atodlenni 1A, 1B ac 1C a nodir yn Atodlen 3 i’r Rheoliadau hyn.

## **Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016**

5.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016<sup>(8)</sup> wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), yn y diffiniad o “awdurdod bwyd anifeiliaid”, yn lle “67(1)” rhodder “67(1A)”;

(b) ym mharagraff (5)—

(i) yn y testun Saesneg, yn lle “an” rhodder “a”;

(ii) yn y ddau le y mae’n digwydd, hepgorer “UE”.

(3) Yn rheoliad 4(1)(a), yn lle “20(2), 21(1) a 22(2)(b)” rhodder “19(3) a (7) ac 21(1)”.

(4) Yn rheoliad 30(1)(b), yn lle “ag Erthygl 4.2 o Gyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid” rhodder “â rheoliad 15(9) o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016”.

*Lynne Neagle*

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a  
Llesiant, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a  
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion  
Cymru

15 Rhagfyr 2022

---

<sup>(8)</sup> O.S. 2016/387 (Cy. 121), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162), 2020/1381 (Cy. 307), 2020/1487 (Cy. 317); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

## ATODLEN 1

Rheoliad 2(5)

Atodlen 6 newydd i Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

## “ATODLEN 6

Rheoliad 12(1) a (2)

RHESTR O'R SYLWEDDAU A AWDURDODWYD AR GYFER  
GWEITHGYNHYRCHU CAEN CELLWLOS ATGYNRYCHIEDIG

Nodiadau:

- Mae'r canrannau yn yr Atodlen hon wedi eu mynegi mewn pwysau/pwysau (p/p) ac wedi eu cyfrifo mewn perthynas â maint y caen cellwlos atgynrychiedig anhydrous heb araen.
- Rhoddir yr enwau technegol arferol mewn cromfachau sgwâr.
- Rhaid i'r sylweddau a ddefnyddir fod o ansawdd technegol da o ran y meini prawf purdeb.

Tabl 1

## Caen cellwlos atgynrychiedig heb araen

<i>Enwau</i>	<i>Cyfyngiadau</i>
<b>A. Cellwlos atgynrychiedig</b>	Heb fod yn llai na 72% (p/p)
<b>B. Ychwanegion</b>	
1. <i>Meddalyddion</i>	Heb fod yn fwy na chyfanswm o 27% (p/p)
— Ether bis (2- hydrocsiethyl)[= deuthylenglycol]	Dim ond ar gyfer caenau y bwriedir eu haraenu ac yna eu defnyddio ar gyfer bwydydd nad ydynt yn llaith, sef bwydydd nad ydynt yn cynnwys dŵr sydd yn ffisegol rydd ar yr wyneb. Ni chaiff cyfanswm yr ether bis(2- hydrocsiethyl) a'r ethanediol sy'n bresennol mewn bwydydd sydd wedi bod mewn cysylltiad â chaen o'r math hwn fod yn fwy na 30mg/kg o'r bwyd.
— Ethanediol [= monoethylenglycol]	
— 1,3-bwtanediol	
— Glyserol	
— 1,2-propanediol [= 1,2 propylenglycol]	
— Polyethylen ocsid [= polyethylenglycol]	Pwysau gronynnol cyfartalog rhwng 250 a 1200.
— 1,2-polypropylen ocsid [= 1,2 polypropylenglycol]	Pwysau gronynnol cyfartalog heb fod yn fwy na 400 a chynnwys 1.3-propanediol rhydd heb fod yn fwy na 1% (p/p) mewn sylwedd.
— Sorbitol	
— Tetraethylenglycol	

<i>Enwau</i>	<i>Cyfyngiadau</i>
— Triethylenglycol	
— Wrea	
<i>2. Ychwanegion Eraill</i>	Heb fod yn fwy na chyfanswm o 1% (p/p).
<i>Y dosbarth cyntaf</i>	Ni chaiff maint y sylwedd neu'r grŵp o sylweddau ym mhob indent fod yn fwy na 2mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.
— Asid asetig a'i halwynau NH <sub>4</sub> , Ca, Mg, K ac Na	
— Asid asgorbig a'i halwynau NH <sub>4</sub> , Ca, Mg, K ac Na	
— Asid bensoig a sodiwm bensoad	
— Asid fformig a'i halwynau NH <sub>4</sub> , Ca, Mg, K ac Na	
— Asidau brasterog unionlin, dirlawn neu annirlawn, gydag eilrif o atomau carbon o 8 i 20 yn gynhwysol a hefyd asidau behenig a risinolëig a halwynau NH <sub>4</sub> , Ca, Mg, K, Na, Al a Zn yr asidau hyn	
— Asidau sitrig, d- ac l-lactig, malëig, l-tartarig a'u halwynau Na a K	
— Asid sorbig a'i halwynau NH <sub>4</sub> , Ca, Mg, K ac Na	
— Amidau asidau brasterog unionlin, dirlawn neu annirlawn, gydag eilrif o atomau carbon o 8 i 20 yn gynhwysol a hefyd amidau asidau behenig a risinolëig	
— Startsys a blodiau bwydadwy naturiol	
— Startsys a blodiau bwydadwy a addaswyd drwy driniaeth gemegol	
— Amylos	
— Carbonadau a chloridau calsiwm a magnesiwm	
— Esterau glyserol gydag asidau brasterog unionlin, dirlawn neu annirlawn, gydag eilrif o atomau carbon o 8 i 20 yn gynhwysol a/neu gydag asidau adipig, sitrig, 12-hydrocsistearig (ocsistearin), risinolëig	
— Esterau polyocsiethylen (8 i 14 o grwpiau ocsiethylen) gydag asidau brasterog unionlin, dirlawn neu annirlawn, gydag eilrif o atomau carbon o 8 i 20 yn gynhwysol	
— Esterau sorbitol gydag asidau brasterog unionlin, dirlawn neu annirlawn, gydag eilrif o atomau carbon o 8 i 20 yn gynhwysol	
— Mono-a/neu di-esterau asid stearig gydag ethanedïol a/neu ether bis (2-hydrocsiethyl) a/neu driethylen glycol	

*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

<i>Enwau</i>	<i>Cyfyngiadau</i>
— Ocsidau a hydrocsidau alwminiwm, calsiwm, magnesiwm a silicon a silicadau a silicadau hydradol alwminiwm, calsiwm, magnesiwm a photasiwm	
— Polyethylen ocsid [= polyethylenglycol]	Pwysau gronynnol cyfartalog rhwng 1200 a 4000.
— Sodiwm propionad	
<i>Yr ail ddosbarth</i>	Ni chaiff cyfanswm maint y sylweddau fod yn fwy nag 1mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu ac ni chaiff maint y sylwedd neu grŵp o sylweddau ym mhob indent fod yn fwy na 0.2mg/dm <sup>2</sup> (neu derfyn is pan bennir un) o'r caen heb ei araenu.
— Sodiwm alcyl (C <sub>8</sub> -C <sub>18</sub> ) bensen sylffonad	
— Sodiwm isopropyl naftthalen sylffonad	
— Sodiwm alcyl (C <sub>8</sub> -C <sub>18</sub> ) sylffad	
— Sodiwm alcyl (C <sub>8</sub> -C <sub>18</sub> ) sylffonad	
— Sodiwm deuoctylsylffosysinad	
— Deustearad deuhydrocsiethyl deuethylen triamin monoasetad	Heb fod yn fwy na 0.05mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.
— Amoniwm, magnesiwm a photasiwm lawryl sylffadau	
— N,N'-deustearoyl deuaminoethan, N,N'-deupalmitoyl deuaminoethan ac N,N'-deuoleoyl deuaminoethan	
— 2-heptadecyl-4,4-bis(methylen-stearad) ocsasolin	
— Polyethylen-aminostearamid ethylsylffad	Heb fod yn fwy na 0.1mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.
<i>Y trydydd dosbarth — Cyfrwng angori</i>	Ni chaiff cyfanswm maint y sylweddau fod yn fwy nag 1mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.
— Cynnyrch cyddwysiad melamin-fformaldehyd heb ei addasu, neu y gellir ei addasu gydag un neu ragor o'r cynhyrchion a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• bwtanol</li> <li>• deuethylentriamin</li> <li>• ethanol</li> <li>• triethylentetramin</li> <li>• tetraethylenpentamin</li> <li>• tri-(2-hydrocsiethyl) amin</li> <li>• 3,3'-deuaminodipropylamin</li> <li>• 4,4'-deuaminodibwtylamin</li> </ul>	Cynnwys fformaldehyd rhydd heb fod yn fwy na 0.5mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.  Cynnwys melamin rhydd heb fod yn fwy na 0.3mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.



<b>Enwau</b>	<b>Cyfyngiadau</b>
— Cynnyrch cyddwysiad melamin-wrea-fformaldehyd a addaswyd gyda thris-(2-hydrocsiethyl)amin	Cynnwys fformaldehyd rhydd heb fod yn fwy na 0.5mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.  Cynnwys melamin rhydd heb fod yn fwy na 0.3mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.
— Polyalcylenaminau cationig croesgysylltiedig: <ul style="list-style-type: none"> <li>• resin polyamid-epiclorhydrin yn seiliedig ar deuaminopropylmethylamin ac epiclorhydrin</li> <li>• resin polyamid-epiclorhydrin yn seiliedig ar epiclorhydrin, asid adipig, caprolactam, deuethylentriamin a/neu ethylendiamin</li> <li>• resin polyamid-epiclorhydrin yn seiliedig ar asid adipig, deuethylentriamin ac epiclorhydrin, neu gymysgedd o epiclorhydrin ac amonia</li> <li>• resin polyamid-polyamin-epiclorhydrin yn seiliedig ar epiclorhydrin, deumethyl adipad a deuethylentriamin</li> <li>• resin polyamid-polyamin-epiclorhydrin yn seiliedig ar epiclorhydrin, adipamid a deuaminopropylmethylamin</li> </ul>	
— Polyethylenaminau a pholyethyleniminau	Heb fod yn fwy na 0.75mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.
— Cynnyrch cyddwysiad wrea-fformaldehyd heb ei addasu, neu y gellir ei addasu gydag un neu ragor o'r cynhyrchion a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• asid aminomethylswlffonig</li> <li>• asid sylffanilig</li> <li>• bwtanol</li> <li>• deuaminobwtan</li> <li>• deuaminodiethylamin</li> <li>• deuaminodipropylamin</li> <li>• deuaminopropan</li> <li>• deuethylentriamin</li> <li>• ethanol</li> <li>• gwanidin</li> <li>• methanol</li> <li>• tetraethylenpentamin</li> <li>• triethylentetramin</li> <li>• sodiwm sylffit</li> </ul>	Cynnwys fformaldehyd rhydd heb fod yn fwy na 0.5mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.
<i>Y pedwerydd dosbarth</i>	Ni chaiff cyfanswm maint y sylweddau fod yn fwy nag 0.01mg/dm <sup>2</sup> o'r caen heb ei araenu.
— Cynhyrchion sy'n deillio o adwaith aminau olewau bwytdwy gyda pholyethylen ocsid	
— Monoethanolamin lawryl sylffad	

*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

**Tabl 2**

**Caen cellwlos atgynyrchiedig gydag araeu**

<i>Enwau</i>	<i>Cyfyngiadau</i>
<b>A. Cellwlos atgynyrchiedig</b>	Gweler Tabl 1.
<b>B. Ychwanegion</b>	Gweler Tabl 1.
<b>C. Araeu</b>	
1. <i>Polymerau</i>	Ni chaiff cyfanswm maint y sylweddau fod yn fwy na 50mg/dm <sup>2</sup> o'r araeu ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— Etherau ethyl, hydrocsiethyl, hydrocsipropyl a methyl cellwlos	
— Cellwlos nitrad	Heb fod yn fwy na 20mg/dm <sup>2</sup> o'r araeu ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd; cynnwys nitrogen rhwng 10.8% (p/p) a 12.2% (p/p) yn y cellwlos nitrad.
2. <i>Resinau</i>	Ni chaiff cyfanswm maint y sylweddau fod yn fwy na 12.5mg/dm <sup>2</sup> o'r araeu ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd a dim ond ar gyfer paratoi caenau cellwlos atgynyrchiedig gydag araeuau sy'n seiliedig ar gellwlos nitrad.
— Casein	
— Coloffoni a/neu ei gynhyrchion polymeru, hydrogenu, neu ddadgyfrannu a'u hesterau methyl, ethyl neu alcoholau polyfalent C <sub>2</sub> i C <sub>6</sub> , neu gymysgeddau o'r alcoholau hyn	
— Coloffoni a/neu ei gynhyrchion polymeru, hydrogenu, neu ddadgyfrannu wedi eu cyddwyso ag asidau acrylig, malëig, sitrig, ffwmariig a/neu ffthalig a/neu 2,2 bis (4-hydrocsiffenyl) propan fformaldehyd ac wedi eu hesteru â methyl ethyl neu alcoholau polyfalent C <sub>2</sub> i C <sub>6</sub> , neu gymysgeddau o'r alcoholau hyn	
— Esterau sy'n deillio o ether bis(2-hydrocsiethyl) gyda chynhyrchion ychwanegu betapinen, a/neu ddeupenten, a/neu ddeuterpen a malëig anhydrid	
— Gelatin bwytadwy	
— Olew castor a'i gynhyrchion dadhydradu neu hydrogenu a'i gynhyrchion cyddwyso gydag asidau polyglyserol, adipig, sitrig, malëig, ffthalig a sebasig	
— Gwm naturiol [= damar]	

<i>Enwau</i>	<i>Cyfngiadau</i>
— Poly-beta-pinen [= resinau terpenig]	
— Resinau wrea-fformaldehyd (gweler cyfryngau angori)	
<b>3. Plastigyddion</b>	Ni chaiff cyfanswm maint y sylweddau fod yn fwy na 6mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— Asetyl tribwtyl sitrad	
— Asetyl tri(2-ethylhecsyl) sitrad	
— Deu-isobwtyl adipad	
— Deu-n-bwtyl adipad	
— Deu-n-hecsyl aselad	
— Deugylchohecsyl ffthalad	Heb fod yn fwy na 4.0mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— 2-ethylhecsyl deuffenyl ffosffad (cyfystyr: ester asid ffosfforig deuffenyl 2 ethylhecsyl)	Ni chaiff maint y 2-ethylhecsyl deuffenyl ffosffad fod yn fwy na:  (a) 2.4mg/kg o'r bwyd sydd mewn cysylltiad â'r math hwn o gaen; neu  (b) 0.4mg/dm <sup>2</sup> yn yr araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— Glyserol monoasetad [= monoasetin]	
— Glyserol deuasetad [= deuasetin]	
— Glyserol triasetad [= triasetin]	
— Deu-bwtyl sebasad	
— Deu-n-bwtyl tartrad	
— Deu-isobwtyl tartrad	
<b>4. Ychwanegion eraill</b>	Ni chaiff cyfanswm maint y sylweddau fod yn fwy na 6mg/dm <sup>2</sup> yn y caen cellwlos atgynyrchiedig heb araen, yn gynhwysol o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
<b>4.1 Yr ychwanegion a restrir yn Nhabl 1</b>	Yr un cyfyngiadau ag yn Nhabl 1 (fodd bynnag mae'r meintiau mewn mg/dm <sup>2</sup> yn cyfeirio at y caen cellwlos atgynyrchiedig heb araen, yn gynhwysol o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd).
<b>4.2 Ychwanegion araen penodol</b>	Ni chaiff maint y sylwedd neu grŵp o sylweddau ym mhob indent fod yn

*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

<b>Enwau</b>	<b>Cyfyngiadau</b>
	fwy na 2mg/dm <sup>2</sup> (neu derfyn is pan bennir un) o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— 1-hecsadecanol ac 1-octadecanol	
— Esterau asidau brasterog unionlin, dirlawn neu annirlawn, gydag eilrif o atomau carbon o 8 i 20 yn gynhwysol ac o asid risinolëig gydag alcoholau unionlin ethyl, bwtyl, amyl ac oleyl	
— Cwyrâu montan, ar ffurf asidau montanig puredig (C <sub>26</sub> i C <sub>32</sub> ) a/neu eu hesterau gydag ethanediol a/neu 1,3 bwtanediol a/neu eu halwynau calsiwm a photasiwm	
— Cwyr carnawba	
— Cwyr gwenyn	
— Cwyr esparto	
— Cwyr candelila	
— Deumethylpolysilocsan	Heb fod yn fwy nag 1mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— Olew ffa soia epocsidiedig (cynnwys ocsiran 6 i 8%)	
— Cwyrâu microgrisialog a pharaffin puredig	
— Pentaerythritol tetrastearad	
— Mono a bis(octadecyldeuethylenocsid)-ffosffadau	Heb fod yn fwy na 0.2mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— Asidau aliffatig (C <sub>8</sub> i C <sub>20</sub> ) wedi eu hestereiddio gyda mono- neu di-(2-hydrocsiethyl)amin	
— 2- a 3-tert.bwtyl-4-hydrocsianisol [= hydrocsianisol bwtyleiddiedig — BHA]	Heb fod yn fwy na 0.06mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— 2,6-di-tert.bwtyl-4-methylphenol [= hydrocsitolwên bwtyleiddiedig — BHT]	Heb fod yn fwy na 0.06mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— Deu-n-octyltin-bis(2-ethylhecsyl) malead	Heb fod yn fwy na 0.06mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
5. <i>Toddyddion</i>	Ni chaiff cyfanswm maint y sylweddau fod yn fwy na 0.6mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.
— Bwtyl asetad	

**Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

<b>Enwau</b>	<b>Cyfyngiadau</b>
— Ethyl asetad	
— Isobwtyl asetad	
— Isopropyl asetad	
— Propyl asetad	
— Aseton	
— 1-bwtanol	
— Ethanol	
— 2-bwtanol	
— 2-propanol	
— 1-propanol	
— Cylchohecsan	
— Ethylenglycol monobwtyl ether	
— Ethylenglycol monobwtyl ether asetad	
— Methyl ethyl ceton	
— Methyl isobwtyl ceton	
— Tetrahydroffwran	
— Tolwên	Heb fod yn fwy na 0.06mg/dm <sup>2</sup> o'r araen ar yr ochr sydd mewn cysylltiad â bwyd.”

**Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

## ATODLEN 2

Rheoliad 3(9)

Atodlen 4A newydd i Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

## “ATODLEN 4A

Rheoliadau 10, 11 a 14

Toddyddion echdynnu y caniateir eu defnyddio wrth brosesu deunyddiau crai, bwyd, cyfansoddion bwyd neu gynhwysion bwyd

**Tabl 1**

**Toddyddion echdynnu i’w defnyddio mewn cydymffurfedd ag arferion gweithgynhyrchu da at bob diben()**

<i>Enw:</i>
Propan
Bwtan
Ethyl Asetad
Ethanol
Carbon deuocsid
Aseton <sup>(2)</sup>
Ocsid nitraidd

- (1) Ystyrir bod toddydd echdynnu yn cael ei ddefnyddio mewn cydymffurfedd ag arfer gweithgynhyrchu da os nad yw ei ddefnyddio yn arwain at bresenoldeb gweddillion neu ddeilliadau ond mewn meintiau na ellir eu hosgoi yn dechnegol nad ydynt yn peri unrhyw berygl i iechyd dynol.
- (2) Ni chaniateir defnyddio Aseton wrth buro olew gweisgion olewydd.

Tabl 2

## Toddyddion echdynnu y pennir amodau defnyddio ar eu cyfer

<i>Enw</i>	<i>Amodau defnyddio (disgrifiad cryno o'r echdynnu)</i>	<i>Terfynau gweddillion uchaf yn y bwyd a echdynnwyd neu'r cynhwysyn bwyd a echdynnwyd</i>
Heccsan <sup>(1)</sup>	Cynhyrchu neu ffracsiynu brasterau ac olewau a chynhyrchu menyn coco	1 mg/kg yn y braster neu'r olew neu'r menyn coco
	Paratoi cynhyrchion protein wedi eu dadfrastereiddio a blodiau wedi eu dadfrastereiddio	10 mg/kg yn y bwyd sy'n cynnwys y cynhyrchion protein wedi eu dadfrastereiddio a'r blodiau wedi eu dadfrastereiddio
		30 mg/kg yn y cynhyrchion soia wedi eu dadfrastereiddio fel y'u gwerthir i'r defnyddiwr terfynol
	Paratoi egin grawn wedi eu dadfrastereiddio	5 mg/kg yn yr egin grawn wedi eu dadfrastereiddio
Methyl asetat	Dadgaffeineiddio coffi a the, neu ddileu elfennau llidus a chwerw ohonynt	20 mg/kg yn y coffi neu'r te
	Cynhyrchu siwgr o driagl	1 mg/kg yn y siwgr
Ethylmethylceton <sup>(2)</sup>	Ffracsiynu brasterau ac olewau	5 mg/kg yn y braster neu'r olew
	Dadgaffeineiddio coffi a the, neu ddileu elfennau llidus a chwerw ohonynt	20 mg/kg yn y coffi neu'r te
Deucloromethan	Dadgaffeineiddio coffi a the, neu ddileu elfennau llidus a chwerw ohonynt	2 mg/kg yn y coffi wedi ei rostio a 5 mg/kg yn y te
Methanol	At bob defnydd	10 mg/kg
Propan-2-ol	At bob defnydd	10 mg/kg
Deumethyl ether	Paratoi cynhyrchion protein anifeiliaid wedi eu	0.009 mg/kg yn y cynhyrchion protein anifeiliaid wedi eu

- (1) Ystyr Heccsan yw cynnyrch masnachol ar ffurf hydrocarbonau dirlawn anghylchol sy'n cynnwys chwe atom carbon ac yn distyllu rhwng 64 °C a 70 °C. Ni chaniateir defnyddio Heccsan ac Ethylmethylceton ar y cyd.
- (2) Ni chaiff y lefel o n-Heccsan yn y toddydd hwn fod yn fwy na 50 mg/kg. Ni chaniateir defnyddio Heccsan ac Ethylmethylceton ar y cyd.
- (3) Ystyr 'Gelatin' yw protein naturiol, toddadwy, sy'n gelio neu nad yw'n gelio, a geir drwy hydrolysis rhannol colagen a gynhyrchir o esgryn, crwyn, tendonau a gewynnau anifeiliaid, yn unol â gofynion perthnasol Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid.
- (4) Ystyr 'Colagen' yw'r cynnyrch sy'n seiliedig ar brotein sy'n deillio o esgryn, crwyn a thendonau anifeiliaid a weithgynhyrchir yn unol â gofynion perthnasol Rheoliad (EC) Rhif 853/2004.

**Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

<i>Enw</i>	<i>Amodau defnyddio (disgrifiad cryno o'r echdynnu)</i>	<i>Terfynau gweddillion uchaf yn y bwyd a echdynnwyd neu'r cynhwysyn bwyd a echdynnwyd</i>
	dadfrastereiddio gan gynnwys gelatin <sup>(3)</sup>	dadfrastereiddio gan gynnwys gelatin
	Paratoi collagen <sup>(4)</sup> a deilliadau collagen, ac eithrio gelatin	3 mg/kg yn y collagen a'r deilliadau collagen, ac eithrio gelatin

- (1) Ystyr Hecsan yw cynnyrch masnachol ar ffurf hydrocarbonau dirlawn anghylchol sy'n cynnwys chwe atom carbon ac yn distyllu rhwng 64 °C a 70 °C. Ni chaniateir defnyddio Hecsan ac Ethylmethylceton ar y cyd.
- (2) Ni chaiff y lefel o n-Hecsan yn y toddydd hwn fod yn fwy na 50 mg/kg. Ni chaniateir defnyddio Hecsan ac Ethylmethylceton ar y cyd.
- (3) Ystyr 'Gelatin' yw protein naturiol, toddadwy, sy'n gelio neu nad yw'n gelio, a geir drwy hydrolysis rhannol collagen a gynhyrchir o esgryn, crwyn, tendonau a gewynnau anifeiliaid, yn unol â gofynion perthnasol Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid.
- (4) Ystyr 'Collagen' yw'r cynnyrch sy'n seiliedig ar brotein sy'n deillio o esgryn, crwyn a thendonau anifeiliaid a weithgynhyrchir yn unol â gofynion perthnasol Rheoliad (EC) Rhif 853/2004.

**Tabl 3**

**Toddyddion echdynnu y mae amodau defnyddio wedi eu pennu ar eu cyfer**

<i>Enw</i>	<i>Terfynau gweddillion uchaf yn y bwyd oherwydd defnyddio toddyddion echdynnu wrth baratoi cyflasynnau o ddeunyddiau cyflasu naturiol</i>
Deuethyl ether	2 mg/kg
Hecsan <sup>(1)</sup>	1 mg/kg
Cylchohecsan	1 mg/kg
Methyl asetat	1 mg/kg
Bwtan-1-ol	1 mg/kg
Bwtan-2-ol	1 mg/kg
Ethylmethylceton <sup>(1)</sup>	1 mg/kg
Deucloromethan	0.02 mg/kg
Propan-1-ol	1 mg/kg
1,1,1,2-tetraffloroethan	0.02 mg/kg
Methanol	1.5 mg/kg
Propan-2-ol	1 mg/kg <sup>''</sup>

- (1) Ni chaniateir defnyddio Hecsan ac Ethylmethylceton ar y cyd.



ATODLEN 3

Rheoliad 4(9)

Atodlenni 1A, 1B ac 1C newydd i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid  
(Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

“ATODLEN 1A

Rheoliad 12(2)

Categoriâu o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid y caniateir  
eu dynodi yn lle deunyddiau bwyd anifeiliaid unigol

<b>Disgrifiad o'r categori</b>	<b>Diffiniad</b>
1. Cig a deunyddiau bwyd sy'n dod o anifeiliaid	— Yr holl rannau cigog o anifeiliaid tir gwaed cynnes a gigyddwyd, yn ffres neu wedi eu cadw drwy driniaeth briodol, a  — Yr holl gynhyrchion a deilliadau o brosesu carcass neu rannau o garcas anifeiliaid tir gwaed cynnes.
2. Llaeth a deunyddiau bwyd sy'n dod o laeth	Pob cynnyrch llaeth, yn ffres neu wedi eu cadw drwy driniaeth briodol, a deilliadau o brosesu'r cynhyrchion hynny.
3. Wyau a deunyddiau bwyd sy'n dod o wyau	Pob cynnyrch wyau, yn ffres neu wedi eu cadw drwy driniaeth briodol, a deilliadau o brosesu'r cynhyrchion hynny.
4. Olewau a brasterau	Pob olew a braster anifeiliaid a llysiau.
5. Burumau	Pob burum, y mae eu celloedd wedi eu lladd a'u sychu.
6. Pysgod a deunyddiau bwyd sy'n dod o bysgod	Pysgod neu rannau o bysgod, yn ffres neu wedi eu cadw drwy driniaeth briodol, a deilliadau o brosesu'r cynhyrchion hynny.
7. Ydau	Pob math o yd, ni waeth sut y'i cyflwynir, neu gynhyrchion a wnaed o'r endosberm startshlyd.
8. Llysiau	Pob math o llysiau a chodlysiau, yn ffres neu wedi eu cadw drwy driniaeth briodol.
9. Deunyddiau bwyd sy'n dod o llysiau	Deilliadau o ganlyniad i drin cynnyrch llysiau, yn enwedig grawn, llysiau, codlysiau a hadau olew.
10. Rhiniau protein llysiau	Pob cynnyrch sy'n dod o llysiau pan fo'r proteinau wedi eu crynhoi drwy broses ddigonol i gynnwys o leiaf 50% o brotein crai, fel y mae'n ymwneud â'r deunydd sych, ac y caniateir ei ailstrwythuro (gweadog).
11. Mwynau	Pob sylwedd anorganig sy'n addas ar gyfer bwyd anifeiliaid.
12. Siwgrau amrywiol	Pob math o siwgr.
13. Ffirwythau	Pob math o ffirwythau, yn ffres neu wedi eu cadw drwy driniaeth briodol.
14. Cnau	Pob cnewyllyn plisg.
15. Hadau	Pob math o hadau, fel y maent neu wedi eu gwasgu'n fras.

*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

<i>Disgrifiad o'r categori</i>	<i>Diffiniad</i>
16. Algâu	Algâu, yn ffres neu wedi eu cadw drwy driniaeth briodol.
17. Molysgiaid a chramenogion	Pob math o folysgiaid, cramenogion neu bysgod cregyn, yn ffres neu wedi eu cadw drwy driniaeth briodol, a deilliadau o'u prosesu.
18. Pryfed	Pob math o bryfed ar bob cam o'u datblygiad.
19. Cynnyrch siop fara	Pob math o fara, cacennau, bisgedi a chynnyrch pasta.

## ATODLEN 1B

Rheoliadau 15 a 15A

Y lefelau uchaf o sylweddau annymunol

Tabl 1

## Halogion anorganig a chyfansoddion nitrogenaidd

<i>Y sylwedd annymunol</i>	<i>Cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid</i>	<i>Uchafswm cynnwys mewn mg/kg (rhannau y filiwn) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%</i>
<b>1. Arsenig<sup>(1)</sup></b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid</b>	2
	ac eithrio:	
	— blawd a wnaed o laswellt, blawd a wnaed o liwsérn sych a blawd a wnaed o feillion sych, a mwydion betys siwgr sych a mwydion betys siwgr triagl sych;	4
	— soeg cnewyll palmwydd;	4
	— mawn, leonardit;	5
	— ffosffadau, algâu morol calchaid;	10
	— calsiwm carbonad; calsiwm a magnesiwm carbonad <sup>(2)</sup> , cregyn morol calchaid;	15
	— magnesiwm ocsid, magnesiwm carbonad;	20
— pysgod, anifeiliaid dyfrol eraill a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt;	25	
— blawd gwymon a deunyddiau blawd sy'n deillio o wymon.	40	
	<b>Gronynnau haearn a ddefnyddir fel deunydd olrhain</b>	50

<i>Y sylwedd annymunol</i>	<i>Cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid</i>	<i>Uchafswm cynnwys mewn mg/kg (rhannau y filiwn) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%</i>
	<p><b>Ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n perthyn i grŵp swyddogaethol cyfansoddion elfennau hybrin</b></p> <p>ac eithrio:</p> <p>— sylffad pentahydrad cwprig, carbonad cwprig, deucopr clorid trihydrocsid, carbonad fferrus, deumanganîs clorid trihydrocsid;</p> <p>— sinc ocsid, ocsid manganisaidd, ocsid cwprig.</p>	<p>30</p> <p>50</p> <p>100</p>
	<p><b>Bwyd anifeiliaid cydategol</b></p> <p>ac eithrio:</p> <p>— bwyd anifeiliaid mwynol;</p> <p>— bwyd anifeiliaid cydategol ar gyfer anifeiliaid anwes sy'n cynnwys pysgod, anifeiliaid dyfrol eraill a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt a/neu flawd gwymon a deunyddiau blawd sy'n deillio o wymon;</p> <p>— fformiweiddiadau cyflenwi hirdymor o fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol sydd â chrynodiad o elfennau hybrin sy'n uwch na 100 gwaith y cynnwys uchaf sefydledig mewn bwyd anifeiliaid cyflawn.</p>	<p>4</p> <p>12</p> <p>10</p> <p>30</p>
	<p><b>Bwyd anifeiliaid cyflawn</b></p> <p>ac eithrio:</p> <p>— bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer pysgod ac anifeiliaid ffwr;</p> <p>— bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer anifeiliaid anwes sy'n cynnwys pysgod, anifeiliaid dyfrol eraill a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt a/neu flawd gwymon a deunyddiau blawd sy'n deillio o wymon.</p>	<p>2</p> <p>10</p> <p>10</p>
<b>2. Cadmiwm</b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n dod o lysiau</b>	1
	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n dod o anifeiliaid</b>	2
	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n dod o fwynau</b> ac eithrio:	2

*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

<i>Y sylwedd annymunol</i>	<i>Cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid</i>	<i>Uchafswm cynnwys mewn mg/kg (rhannau y filiwn) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%</i>
	— ffosffadau.	10
	<b>Ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n perthyn i grŵp swyddogaethol cyfansoddion elfennau hybrin</b> ac eithrio: — cwprig ocsid, ocsid manganaidd, sinc ocsid a monohydrad sylffad manganaidd.	10  30
	<b>Ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n perthyn i grŵp swyddogaethol cyfryngau rhwymo a chyfryngau gwrthdalpio</b>	2
	<b>Rhag-gymysgeddau<sup>(3)</sup></b>	15
	<b>Bwyd anifeiliaid cydategol</b> ac eithrio: — bwyd anifeiliaid mwynol; —sy'n cynnwys < 7% o ffosfforws <sup>(4)</sup> ; —sy'n cynnwys ≥ 7% o ffosfforws <sup>(4)</sup> ;  — bwyd anifeiliaid cydategol ar gyfer anifeiliaid anwes;  — fformiwleiddiadau cyflenwi hirdymor o fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol sydd â chrynodiad o elfennau hybrin sy'n uwch na 100 gwaith y cynnwys uchaf sefydledig mewn bwyd anifeiliaid cyflawn.	0.5  5 0.75 fesul 1% o ffosfforws <sup>(4)</sup> gydag uchafswm o 7.5  2  15
	<b>Bwyd anifeiliaid cyflawn</b> ac eithrio: — bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer gwartheg (ac eithrio lloi), defaid (ac eithrio ŵyn), geifr (ac eithrio mynnod) a physgod; — bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer anifeiliaid anwes.	0.5  1  2
<b>3. Fflworin<sup>(5)</sup></b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid</b> ac eithrio:	150

<i>Y sylwedd annymunol</i>	<i>Cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid</i>	<i>Uchafswm cynnwys mewn mg/kg (rhannau y filiwn) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%</i>
	— Deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n dod o anifeiliaid ac eithrio cramenogion morol megis cril morol; cregyn morol calchaid;	500
	— cramenogion morol megis cril morol;	3,000
	— ffosffadau;	2,000
	— calsiwm carbonad, calsiwm a magnesiwm carbonad <sup>(2)</sup> ;	350
	— magnesiwm ocsid;	600
	— algâu morol calchaid.	1,250
	<b>Fermicwilit (E 561)</b>	3,000
	<b>Bwyd anifeiliaid cydategol</b>	
	— sy'n cynnwys ≤ 4 % o ffosfforws <sup>(4)</sup> ;	500
	— sy'n cynnwys > 4 % o ffosfforws <sup>(4)</sup> .	125 fesul 1% o ffosfforws <sup>(4)</sup>
	<b>Bwyd anifeiliaid cyflawn</b>	150
	ac eithrio:	
	— bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer moch;	100
	— bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer dofednod (ac eithrio cywion) a physgod;	350
	— bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer cywion;	250
	— bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer gwartheg, defaid a geifr	
	— yn ystod llaetha;	30
	— fel arall.	50
<b>4. Plwm<sup>(6)</sup></b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid</b>	10
	ac eithrio:	
	— porthiant <sup>(7)</sup>	30
	— ffosffadau, algâu morol calchaid a chregyn morol calchaid;	15
	— calsiwm carbonad, calsiwm a magnesiwm carbonad <sup>(2)</sup> ;	20
	— burumau.	5

*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

<i>Y sylwedd annymunol</i>	<i>Cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid</i>	<i>Uchafswm cynnwys mewn mg/kg (rhannau y filiwn) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%</i>
	<b>Ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n perthyn i grŵp swyddogaethol cyfansoddion elfennau hybrin</b> ac eithrio: — sinc ocsid; — ocsid mangaidd, carbonad fferrus, cwprig carbonad, copr (I) ocsid.	100  400 200
	<b>Ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n perthyn i grŵp swyddogaethol cyfryngau rhwymo a chyfryngau gwrthdalpio</b> ac eithrio: — clinoptilolit o darddiad folcanig, natrolit-ffonolit.	30  60
	<b>Rhag-gymysgeddau<sup>(3)</sup></b>	200
	<b>Bwyd anifeiliaid cydategol</b> ac eithrio: — bwyd anifeiliaid mwynol; — fformiweiddiadau cyflenwi hirdymor o fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol sydd â chrynodiad o elfennau hybrin sy'n uwch na 100 gwaith y cynnwys uchaf sefydledig mewn bwyd anifeiliaid cyflawn.	10  15 60
	<b>Bwyd anifeiliaid cyflawn</b>	5
<b>5. Mercuri<sup>(8)</sup></b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid</b> ac eithrio: — pysgod, anifeiliaid dyfrol eraill a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt a fwriedir ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd; — pysgod, anifeiliaid dyfrol eraill a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt a fwriedir ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer cŵn, cathod, pysgod addurnol ac anifeiliaid ffwr; — pysgod, anifeiliaid dyfrol eraill a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt fel deunydd bwyd anifeiliaid	0.1  0.5 1.0 <sup>(9)</sup>  0.3

**Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

<i>Y sylwedd annymunol</i>	<i>Cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid</i>	<i>Uchafswm cynnwys mewn mg/kg (rhannau y filiwn) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%</i>
	gwlyb mewn tun ar gyfer bwydo cŵn a chathod yn uniongyrchol; — calsiwm carbonad; calsiwm a magnesiwm carbonad <sup>(2)</sup> .	0.3
	<b>Bwyd anifeiliaid cyfansawdd</b> ac eithrio: — bwyd anifeiliaid mwynol; — bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer pysgod; — bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer cŵn, cathod, pysgod addurnol ac anifeiliaid ffwr.	0.1 0.2 0.2 0.3
<b>6. Nitraid<sup>(10)</sup></b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid</b> ac eithrio: — blawd pysgod; — silwair; — cynhyrchion a sgil-gynhyrchion betys siwgr a chansen siwgr a chynhyrchion a sgil-gynhyrchion cynhyrchu startsh a diodydd alcohol.	15 30 — —
	<b>Bwyd anifeiliaid cyflawn</b> ac eithrio: — bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer cŵn a chathod sydd â chynnwys lleithder o fwy nag 20%.	15 —
<b>7. Melamin<sup>(11)</sup></b>	<b>Bwyd anifeiliaid</b> ac eithrio: — bwyd anifeiliaid anwes tun; — yr ychwanegion bwyd anifeiliaid a ganlyn: — asid asetig gwanidino (GAA); —wrea; —biwret.	2.5 2.5 <sup>(12)</sup> 20 — —

(1) Mae'r lefelau uchaf yn cyfeirio at gyfanswm yr arsenig.

(2) Mae calsiwm a magnesiwm carbonad yn cyfeirio at y cymysgedd naturiol o galsiwm carbonad a magnesiwm carbonad fel y'i disgrifir yn Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 68/2013 ar y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid.

(3) Mae'r lefel uchaf a bennwyd ar gyfer rhag-gymysgeddau yn ystyried yr ychwanegion sydd â'r lefel uchaf o blwm a chadmiwm ac nid sensitifwydd y rhywogaethau gwahanol o anifeiliaid i blwm a chadmiwm. Fel y darperir yn Erthygl 16 o Reoliad 1831/2003, er mwyn diogelu iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd, y sawl sy'n cynhyrchu rhag-gymysgeddau

**Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

sy'n gyfrifol am sicrhau, yn ogystal â chydymffurfio â'r lefelau uchaf ar gyfer rhag-gymysgeddau, fod y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r rhag-gymysgedd yn unol â'r lefelau uchaf ar gyfer bwyd anifeiliaid cydategol a bwyd anifeiliaid cyflawn.

- (4) Mae % y ffosfforws mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%.
- (5) Mae lefelau uchaf yn cyfeirio at fesuriad dadansoddol o fflworin, pan fo echdynnu yn cael ei gyflawni gydag asid hydroclorig 1 N am 20 munud ar dymheredd amgylchol. Gellir defnyddio gweithdrefnau echdynnu cyfwerth pan ellir dangos bod y weithdrefn echdynnu honno a ddefnyddir yr un mor effeithiol.
- (6) I fesur plwm mewn clai caolinitig ac mewn bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys clai caolinitig, mae'r lefel uchaf yn cyfeirio at fesuriad dadansoddol o blwm, pan fo echdynnu wedi ei gyflawni mewn asid nitrig (5% p/p) am 30 munud ar dymheredd berwi. Gellir defnyddio gweithdrefnau echdynnu cyfwerth pan ellir dangos bod y weithdrefn echdynnu honno a ddefnyddir yr un mor effeithiol.
- (7) Mae porthiant yn cynnwys cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid megis gwellt, silwair, porfa ffres, etc.
- (8) Mae'r lefelau uchaf yn cyfeirio at gyfanswm y mercwri.
- (9) Mae'r lefel uchaf yn gymwys ar sail pwysau gwlyb.
- (10) Mae'r lefelau uchaf wedi eu mynegi fel sodiwm nitrad.
- (11) Mae'r lefel uchaf yn cyfeirio at felamin yn unig. Bydd cynnwys y cyfansoddion sy'n perthyn o ran strwythur, sef asid syanwrig, ammelin ac ammelid yn y lefel uchaf yn cael ei ystyried yn ddiweddarach.
- (12) Mae'r lefel uchaf yn gymwys i fwyd anifeiliaid anwes tun fel y'i gwerthir.

**Tabl 2**

**Mycotocsinau**

<i>Y sylwedd annymunol</i>	<i>Cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid</i>	<i>Uchafswm cynnwys mewn mg/kg (rhannau y filiwn) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%</i>
<b>1. Aflatocsin B<sub>1</sub></b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid</b>	0.02
	<b>Bwyd anifeiliaid cydategol a bwyd anifeiliaid cyflawn</b>	0.01
	ac eithrio: — bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer gwartheg godro a lloi, defaid godro ac ŵyn, geifr godro a mynnod, perchyll a dofednod ifanc, — bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer gwartheg (ac eithrio gwartheg godro a lloi), defaid (ac eithrio defaid godro ac ŵyn), geifr (ac eithrio geifr godro a mynnod), moch (ac eithrio perchyll) a dofednod (ac eithrio anifeiliaid ifanc).	0.005  0.02
<b>2. Mallryg (<i>Claviceps purpurea</i>)</b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid cyfansawdd sy'n cynnwys grawn heb eu malu</b>	1000



Tabl 3

## Tocsinau cynhenid planhigion

<i>Y sylwedd annymunol</i>	<i>Cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid</i>	<i>Uchafswm cynnwys mewn mg/kg (rhannau y filiwn) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sydd â chynnwys lleithder o 12%</i>
<b>1. Gossypol rhydd</b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid</b>	20
	ac eithrio: — hadau cotwm; — dwysfwyd hadau cotwm a blawd hadau cotwm.	6000 1200
	<b>Bwyd anifeiliaid cyflawn</b>	20
	ac eithrio: — bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer gwartheg (ac eithrio lloi); — bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer defaid (ac eithrio ŵyn) a geifr (ac eithrio mynnod); — bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer dofednod (ac eithrio ieir dodwy) a lloi; — bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer cwningod, ŵyn, mynnod a moch (ac eithrio perchyll).	500 300 100 60
<b>2. Asid hydrosyanig</b>	<b>Deunyddiau bwyd anifeiliaid</b>	50
	ac eithrio: — hadau llin; — dwysfwydydd hadau llin; — cynhyrchion manioc a dwysfwydydd almon.	250 350 100
	<b>Bwyd anifeiliaid cyflawn</b>	50
	ac eithrio: — bwyd anifeiliaid cyflawn ar gyfer ieir ifanc (< 6 wythnos).	10
<b>3. Theobromin</b>	<b>Bwyd anifeiliaid cyflawn</b> ac eithrio:	300

(1) Mae'r lefelau uchaf wedi eu mynegi fel alyl isothiosyanad.

(2) Ar gais gan yr awdurdodau cymwys, rhaid i'r gweithredwr cyfrifol wneud dadansoddiad i ddangos bod cynnwys cyfanswm y glwcosinoladau yn is na 30 mmol/kg. Y dull dadansoddi yw cyfeirnod BS EN ISO 9167:2019 "Rapeseed and rapeseed meals. Determination of glucosinolates content. Method using high-performance liquid chromatography". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Mehefin 2019 (ISBN 978 0 539 07739 1). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

